

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ebrill 28: Swper Blynnyddol y Gymdeithas Undebol yng Nghlwb Golf Caernarfon am 7.00 o'r gloch yng nghwmni'r gwr gwadd, Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

Nos Fercher, Ebrill 30: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yng nghapel Tabernacl, Llanrwst am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 4: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Ebrill 30: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yng nghapel Tabernacl, Llanrwst am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 4: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 4: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 27

5.00 p.m. - Oedfa

Mai 4

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mai 11

10.15 a.m. - Ysgol Sul
2.00 p.m. - Cymnfa'r Annibynwyr
5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Mai 18

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 25

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Cwrs Coleg y Bala Plant yr Ofalaeth

Plant 8-12 oed
(Blwyddyn 3-6)

Nos Wener, Mai 16
- Dydd Sul, Mai 18

Mae hwn yn gwrs gwerth chweil
bob blwyddyn

Manylion pellach gan y
Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
- Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mai 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
2.00 p.m. - Cymnfa'r Annibynwyr
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 18

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Mai 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 589 - Dydd Sul, 27 Ebrill, 2014

Pam Gronyn?

Gwell hwyr na hwyrach, meddan nhw. A rhyfedd fel y medrwch chi gymryd pethau'n ganiataol am hydoedd. Newydd sylweddoli ydw i nad wyf yn unman wedi egluro pam y rhois i'r enw *Gronyn* i'r daflen wythnosol hon. Roeddwn i'n meddwl fy mod wedi gwneud hynny ar y cychwyn, ond o fwrw golwg sydyn dros hen rifynnau, fedraf fi ddim gweld unrhyw gyfeiriad o gwbl at yr enw.

Felly pam y teitl *Gronyn*? Hyd y gwelaf, yr unig beth a ddywedais ar y cychwyn oedd mai peth bychan ydi gronyn ac mai peth bychan oedd y daflen hon i fod. Fe wyddwn fod gan rai eglwysi gylchgrawn misol neu chwarterol; ond doeddwn i ddim yn bwriadu cyhoeddi cylchgrawn na dim byd uchelgeisiol. Y bwriad oedd cyhoeddi taflen fechan i roi pwt o newyddion a'r gronyn lleiaf o neges Gristnogol bob wythnos.

On ddoedd i'r teitl fwy o arwyddocâd na hynny. Yng nghefn fy meddwl roedd y cyfeiriadau at 'ronyn' yn y Testament Newydd sy'n cyfleu'r bywyd a'r tyfiant sy'n rhan o neges yr Efengyl.

Mae Iesu Grist yn cymharu teymas Dduw i 'ronyn o had mwstard' (Marc 4:31, yr hen gyfieithiad). Mae'n egluro mai'r hedyn hwn yw'r lleiaf o'r holl hadau, ond bod pren cadarn yn tyfu o'r gronyn bychan hwn.

Mae Iesu'n cyfeirio at yr hedyn hwn eto pan ddywed yn Luc 17:6 y gallai ei

ddisgyblion ddadwreiddio coeden 'pe byddai gennych ffydd gymaint â gronyn o had mwstard'.

Ac felly, o gofio'r hyn a ddywedodd Iesu am y gronyn hwn, roedd y gair yn swnio'n addas fel teitl i daflen a allai fod yn ddefnyddiol yng ngwasanaeth Duw a'r Efengyl er gwaetha'r ffaith mai rhywbeth bychan iawn ydoedd. Nid oes rhaid i bethau fod yn fawr er mwyn bod o ddefnydd i'r Arglwydd. Ac mae hynny'n parhau'n gysur, ac yn ysgogiad dros ddal i gyhoeddi *Gronyn* bob wythnos. Mae cyn lleied heddiw ag ydoedd nôl ym mis Medi 2001 pan ddechreuwyd ei gyhoeddi bob Sul, ond os yw'n offeryn i gyhoeddi cysur a gobaith yr Efengyl mae'n cyflawni ei ddiben.

On ddoedd un adnod arall y tu cefn i'r enw. Wrth drafod yr atgyfodiad dywed Paul 'A'r hyn yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd ydyw, ond gronyn noeth, o wenith efallai neu o ryw rawn arall (1 Corinthiaid 15:37). Mae'r gronyn yma'n symbol o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist. Caiff y gronyn gwenith ei roi yn y pridd, ac ohono daw'r cynhaeaf; a defnyddia Paul hynny fel darlun o'r atgyfodiad a'r corff nefol a gaiff y Cristion, er i'w gorff daearol farw a chael ei gladdu. I Paul, roedd y gronyn gwenith a gladdwyd yn addewid o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol yng Nghrist. A'm bwriad innau oedd y byddai *Gronyn* yn cyflwyno'r gobaith hwnnw. A dyna'r bwriad o hyd wrth gwrs.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch. Mae Mr Robert Morris, a oedd i fod yma, yn yr ysbyty, a dymunwn adferiad buan iddo.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Llanberis am 10.30 o'r gloch. Byddaf yn arwain hon a'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd, yn arbennig yr aelodau ffyddlon sy'n methu â dod i'r oedfaon y dyddiau hyn. Gwelwn eisiau'r ffyddloniaid sy'n methu dod atom o Sul i Sul.

Cwrs Plant yn y Bala

Mae'n bryd archebu lle ar gyfer Cwrs Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala ar gyfer plant 8–12 oed, sef plant Blwyddyn 3–6 yr ysgol (er bod croeso hefyd i blant Blwyddyn 7 ddod).

Byddwn yn mynd i'r Bala o nos Wener, Mai 16 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 18.

Mae angen llenwi ffurflen ac anfon blaendal i'r Coleg mor fuan â phosibl ac felly a fedrwch chi wneud yn siwr bod y ffurflenni yn cael eu dychwelyd mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

Bydd plant Llanberis a Deiniolen yn rhannu'r penwythnos eleni eto gyda phlant Llanrug a Bethel a gobeithio'n fawr y cawn ni griw da unwaith eto.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Cynhelir Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golff Caernarfon nos yfory, nos Lun, Ebrill 28 am 7.00 o'r gloch.

Y gwr gwadd fydd Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, ac edrychwn ymlaen at ei groesawu atom.

Cymanfa

Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, am 2.00 o'r gloch bawn Sul, Mai 11.

Aelodau'r Ysgol Sul yn Neiniolen fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth dechreuol a threfniadau'r te.

Croeso cynnes i bawb.

Cymorth Cristnogol Mai 11–17

Mai 11–17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol o ddrws i ddrws yn Llanberis Deiniolen eleni eto.

Os medrwch roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Fel y gwyddoch, mwya'n byd o bobl sydd gennym i helpu efo'r casglu, mwya'n byd o arian a gesglir.

Cysylltwch â Mr a Mrs Neville Thorman Jones yn Neiniolen neu'r Gweinidog yn Llanberis os gwelwch yn dda.

Cynllun Efe

Un o Gant ac Un o Fil

Dyma'r Sul olaf y bydd y nodyn hwn am 'Un o Gant' ac 'Un o Fil' yn cael ei gynnwys yn *Gronyn* eleni gan ein bod wedi rhoi sylw iddo ers mis erbyn hyn.

Diolch yn fawr iawn am bob cyfraniad a gafwyd eleni eto at yr apêl hon. Ac er na fyddwn yn tynnu sylw at yr apêl am flwyddyn arall, mae cyfle i gyfrannu at waith Cynllun Efe unrhyw adeg wrth gwrs.

Mae'r apêl wedi ei gwneud yn eglwysy'r ardal, a gobeithio'n fawr y bydd yr ymateb wedi bod yn galonogol trwy'r ardal gyfan.

Yr ydym yn dibynnu fwy a mwy ar gyfraniadau cyfeillion sy'n gweld gwerth yn y dystiolaeth y mae Cynllun Efe yn ei dwyn i'r Arglwydd Iesu Grist ymhlith

plant ac ieuencid yn ysgolion ac ysgolion Sul a chapel ac eglwysy'r fro.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysy'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuencid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher yr wythnos hon, Ebrill 30, am 7.00 o'r gloch.

Ceir anerchiad gan Mrs Julie Edwards, Y Bala, a fydd yn rhoi cyflwyniad i'r ddogfen newydd sydd wedi ei hanfon at yr eglwysy yn sôn am y gofynion newydd yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion bregus o fewn yr eglwysy.

Gwefan

Mae lluniau o Pasg Efe, a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug, ddydd Llun, Ebrill 14 i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth ac ar wefan Cynllun Efe.

Gwefan yr Ofalaeth yw
www.gronyn.org

Gwefan Cynllun Efe yw
www.cynllunefe.org

Mae'n werth cael golwg ar y ddwy er mwyn cael y newyddion diweddaraf am waith yr Ofalaeth a gwaith Efe.